Mae'r cofnodion hyn yn destun cymeradwyaeth fel cofnod cywir yng nghyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archifau Morgannwg

CYDBWYLLGOR ARCHIFAU MORGANNWG

Cofnodion Cyfarfod y Cydbwyllgor Archifau Morgannwg a gynhaliwyd yn Archifau Morgannwg - Clos Parc Morgannwg, Lecwydd, Caerdydd ar Dydd Gwener, 14 Mehefin 2019 yn 2.00 pm.

Yn bressenol:

| | |
|---|---|
| Aelodau: | Cynghorydd Cowan, Cyngor Caerdydd<br>Cunnah, Cyngor Caerdydd<br>Henshaw, Cyngor Caerdydd<br>Jarvie, Cyngor Bro Morgannwg<br>R Lewis, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf<br>Y Cynghorydd Wendy Lewis, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf<br>Smith, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr<br>Cynghorwyr Colbran, Cynor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful<br>Robson, Cyngor Caerdydd |

1 : ETHOL CADEIRYDD AR GYFER CYD-BWYLLGOR ARCHIFAU MORGANNWG AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG Y CYNGOR 2019/20.

Dywedwyd wrth yr Aelodau, yn dilyn amserlen cylchdroi'r Cadeirydd/Is-gadeirydd, mai tro Bro Morgannwg oedd bod yn Gadeirydd y Cyd-bwyllgor, a thro Merthyr i fod yn Is-gadeirydd.

PENDERFYNWYD: Ethol y Cynghorydd Gwyn John yn Gadeirydd Cyd-bwyllgor Archifau Morgannwg am y flwyddyn ddinesig 2019/2020.

2 : ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER CYD-BWYLLGOR ARCHIFAU MORGANNWG AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG Y CYNGOR 2019/20.

PENDERFYNWYD: Ethol y Cynghorydd Malcom Colbran yn Is-gadeirydd Cyd-bwyllgor Archifau Morgannwg am y flwyddyn ddinesig 2019/2020.

Gan nad oedd y Cynghorydd John yn bresennol, daeth y Cynghorydd Malcolm Colbran i'r Gadair.

3 : NODI'R AELODAETH CYDBWYLLGOR ARCHIFAU MORGANNWG AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG Y CYNGOR 2019/20.

PENDERFYNWYD: nodi aelodaeth Cyd-bwyllgor Archifau Morgannwg ar gyfer Blwyddyn Ddinesig y Cyngor 2019/20.

4 : NODI CYDGYTUNDEB/CYLCH GORCHWYL CYDBWYLLGOR ARCHIFAU MORGANNWG AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG Y CYNGOR 2019/20.

PENDERFYNWYD: Cydgytundeb/Cylch Gorchwyl Cydbwyllgor Archifau Morgannwg ar gyfer Blwyddyn Ddinesig y Cyngor 2019/20.

5 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Gwyn John a Nicole Burnett.

6 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd unrhyw rai.

7 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2019 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

8 : ADRODDIAD AR GYFER Y CYFNOD 1 MAWRTH - 31 MAI 2019

Rhoddwyd diweddariad i'r Aelodau ar waith, ymweliadau a chyflawniadau'r gwasanaeth am y cyfnod 1 Mawrth 2019 - 31 Mai 2019; Dangosfwrdd yr Amcanion, Atodiadau yn rhestru derbyniadau nodedig, gwybodaeth am gasgliadau a'r ymholiadau diddorol.

Yn gryno, eglurodd yr Archifydd ei bod wedi bod yn chwarter prysur ar gyfer datblygu projectau partneriaeth gyda nifer o gyfleoedd newydd yn cyflwyno wrth i brojectau presennol ddod i ben. Roedd y proffil ar-lein yn tyfu gyda chymorth gwirfoddolwyr sy'n ymchwilio cynnwys ac yn ysgrifennu'r blogiau. Mae staff yn rheoli'r galw uchel am fynediad i'r Casgliad ac yn cadw at dargedau ar gyfer derbyn ychwanegiadau i'r Casgliad. Dylid eu canmol am eu hymrwymiad a'u gwaith caled, sef cynnal proffil uchel a statws y gwasanaeth yng Nghymru a thu hwnt.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i’r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

Nododd yr aelodau yn y cyfarfod diwethaf fod marwolaeth Mr Murray McLaggan wedi'i gofnodi a gofynnwyd am wneud rhywbeth i goffáu ei gyfraniad i'r Cyd-bwyllgor. Dywedodd y swyddogion, yn anffodus, na fu unrhyw gynnydd ar hyn a gofynnodd i'r Aelodau am awgrymiadau.

Gofynnodd yr aelodau sut roedd y symudiad i feddalwedd Office 365 yn mynd. Dywedodd swyddogion ei fod wedi dal yn ôl gan fod angen iddynt uwchraddio offer TG fel ei fod yn gydnaws ag Office 365; ychwanegodd swyddogion fod angen gwneud hyn beth bynnag ac unwaith y byddent wedi eu cwblhau nid oeddent yn rhagweld unrhyw broblemau gyda'r symudiad i Office 365.

Nododd yr aelodau gost sylweddol offer megis y bwrdd sugno newydd. Eglurodd y swyddogion y bydd yn cyflymu llawer o waith cadwraeth, mae’n cael ei gyllido gan grant a bydd yn galluogi'r gwasanaeth i ymgymryd â mwy o waith.

Hysbyswyd yr aelodau fod digidoleiddio’n gweithredu gyda thaliadau ar-lein.

Trafododd yr Aelodau fynediad o bell a gofynnwyd a oedd opsiwn i ddarparu adborth cwsmeriaid y gellid ei ddefnyddio ar gyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r gwasanaeth. Eglurodd y swyddogion nad oes ganddynt yr adnodd i hyrwyddo'r gwasanaeth ar gyfryngau cymdeithasol, byddai hefyd angen cyfieithu. Mae ffurflenni adborth ar gael yn y dderbynfa a byddai Swyddogion yn edrych ar y dewis o ffurflenni adfachu ar gyfer mynediad ar-lein.

Gan gyfeirio at ymddeoliad yr Archifydd, gofynnodd yr Aelodau am gynllunio olyniaeth a'r broses recriwtio ceisiadau ar gyfer yr Archifydd newydd. Dywedodd y swyddogion y byddai'n rhoi 6 mis o rybudd ym mis Hydref; yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi bydd yn dod ag adroddiad yn manylu ar yr opsiynau ar gyfer y broses recriwtio ac ymgeisio. Gofynnodd yr Aelodau a oedd yr Archifydd yn hyderus y byddai apwyntiad yn cael ei wneud, ac atebodd hi ei bod.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd trefniadau dros dro ar waith ar gyfer eleni a dywedodd y Swyddogion fod systemau ar waith i gwmpasu'r gostyngiad o 25% yn oriau'r Archifyddion ac nad oedd unrhyw broblemau ar hyn o bryd. Eglurodd yr Archifydd ymhellach nad yw'r wybodaeth yn cael ei chadw gan un person yn unig, maent yn rhannu gwybodaeth am brojectau ac wedi rhannu gyriannau ac ati, felly nid oes unrhyw seilos.

Gofynnodd yr aelodau a oedd y gwasanaeth yn rhan o'r Archif Darlledu Genedlaethol; mae swyddogion yn dweud nad oeddent, nid oedd neb wedi cysylltu â nhw gan ei fod yn broject Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Roedd swyddogion wedi mynychu cyfarfod ar hyn a byddai hyb yng Nghaerdydd yn rhywle ond byddai'r mater yn ofod, byddai ei osod yn adeilad yr Archifau yn golygu cyfyngu ar yr hyn y gallent ei wneud. Dywedodd swyddogion y gallent archwilio opsiynau ar gyfer rhywfaint o ofod awyr agored o bosibl.

PENDERFYNWYD: nodi’r adroddiad.

9 : SEFYLLFA ALLDRO TERFYNOL A FFURFLEN YMATEB DDRAFFT SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU AR GYFER 2018/19

Cyflwynodd yr adroddiad hwn drosolwg cryno o'r canlyniadau ariannol ar gyfer y flwyddyn, ynghyd â ffurflen ddrafft heb ei archwilio Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2019. Mae angen cwblhau Tudalen 4 y ffurflen, ‘Cymeradwyo ac Ardystio gan y Pwyllgor’, ond caiff y datganiadau ariannol drafft nas archwiliwyd eu cyflwyno i'r Pwyllgor er gwybodaeth yn unig.

Amlinellwyd y gwariant arfaethedig a'r gwariant gwirioneddol ar gyfer pob maes i'r Aelodau.

Atgoffwyd yr aelodau y cytunwyd yn 2015/16 y byddai £100,000 yn cael ei dynnu i lawr o'r Cronfeydd Wrth Gefn ac y byddai hyn yn cael ei ostwng £25,000 bob blwyddyn wrth symud ymlaen. Yn 2018/19, nid oedd disgwyl i arian gael ei dynnu i lawr o'r Cronfeydd Wrth Gefn, fodd bynnag, pan osodwyd y gyllideb ar gyfer eleni, cytunwyd i barhau i dynnu £25,000 i lawr i leddfu'r pwysau o gynyddu gwariant a lleihad incwm. Felly, mae'r sefyllfa gyffredinol yn cynrychioli gorwariant net o £32,977 yn erbyn y gyllideb, sy'n cynrychioli'r angen am ostyngiad cyffredinol o £57,977 o'r Cronfeydd Wrth Gefn.

| **Symudiadau ar Gronfa Gyffredinol Archifau Morgannwg** | **£** |
|---|---|
| Balans a dygwyd ymlaen ar 1af Ebrill 2018 | 233,945 |
| Yn Llai’r Arian a Dynnwyd i Lawr o'r Gronfa Gyffredinol | (57,977) |
| Trosglwyddo i'r Gronfa Wrth Gefn Cyffredinol | 0 |
| **Balans hyd at 31ain Mawrth 2019** | **175,968** |

Mae'r £57,977 yn y tabl uchod yn cynrychioli tynnu i lawr arian o'r cronfeydd wrth gefn er mwyn talu am y gwariant o fewn y flwyddyn nad yw cyfraniadau aelodau Awdurdod Lleol yn eu cynnwys. Mae'r targed ar gyfer 2019/20 wedi cael ei gynyddu i £50,000 wedi'i dynnu i lawr o'r Gronfa Wrth Gefn. Er gwaethaf yr ymdrechion i ddileu'n raddol yr angen am dynnu arian i lawr, mae'r bylchau ariannu cynyddol bob blwyddyn yn golygu y bydd hyn yn anos symud ymlaen a bydd angen ei fonitro yn y dyfodol.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i’r aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau:

Gofynnodd yr aelodau a oedd unrhyw arian yn y gyllideb i hysbysebu am yr Archifydd newydd, ac am y costau sy'n gysylltiedig â recriwtio. Dywedodd y swyddogion nad oedd dim byd penodol ond gyda'r Archifydd presennol yn gollwng un diwrnod yr wythnos, roedd arbediad yn y flwyddyn a ddylai ei wneud yn hydrin.

Trafododd yr Aelodau'r cronfeydd wrth gefn a gofynnwyd beth oedd yr isafswm swm wrth gefn diogel. Dywedodd swyddogion nad oes ffigwr sefydlog, mae'n benderfyniad barn; pan agorwyd y mater ar gyfer trafodaeth yn wreiddiol, cytunwyd yn anffurfiol y byddai £100 mil yn swm synhwyrol; mae hyn yn rhoi sylw i ddigwyddiad eithriadol mewn unrhyw flwyddyn. Roedd swyddogion o'r farn y gellid cynnal adolygiad o'r cynllun ariannol tymor Canolig ar gyfer y gwasanaeth, i edrych a yw'r gronfa wrth gefn yn ddigonol ac a oes angen ailystyried cyfraniadau awdurdodau lleol.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi'r sefyllfa alldro ar gyfer 2018/19.

Y dylid nodi a llofnodi Ffurflen Flynyddol ddrafft Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2018/19.

10 : DYDDIADAU’R CYFARFODYDD NESAF

PENDERFYNWYD: Nodi amserlen dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol:

13 Medi 2019
13 Rhagfyr 2019
13 Mawrth 2020
12 Mehefin 2020